

MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd os yw un o Offerynnau Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
2. Gosodwyd Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 gerbron Senedd y DU ar 30 September 2020 ac maent yn awr yn cael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'r Rheoliadau ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/id/ukdsi/2020/9780348212594>

Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcan

3. Amcan yr OS yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas ag elfennau gofal iechyd cilyddol o gyd-drefnu nawdd cymdeithasol.
4. Bydd yr OS hwn yn diwygio tri OS gofal iechyd cilyddol a wnaed ar sail Cymru a Lloegr, gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru, fel rhan o'r ymarfer cywiriadau ar gyfer ymadael â'r UE heb gytundeb er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu'n gywir.
5. Bydd y diwygiadau yn sicrhau y bydd y tri OS yn weithredol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu (31 Rhagfyr 2020) ac yn unol â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

Y ddarpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS

6. Mae'r OS yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019"). Mae Rheoliadau 2019 yn diwygio Deddf GIG (Cymru) 2006. Effaith y ddarpariaeth felly yw bod Deddf GIG (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") yn cael ei diwygio o ganlyniad.
7. Dileodd Rheoliadau 2019 yr adrannau hynny o Ddeddf 2006 (6A i 6BB) sy'n darparu y bydd Gweinidogion Cymru yn ad-dalu costau i drigolion Cymru am driniaeth a gynlluniwyd ymlaen llaw yn un o wladwriaethau yr Ardal Economaidd Ewropeaidd. Fodd bynnag, cadwyd yr adrannau hynny, gydag addasiadau, ar gyfer achosion sy'n codi cyn y diwrnod ymadael

(rheoliad 15 ac Atodlen 1 i Reoliadau 2019). Mae'r OS yn gwneud diwygiadau pellach i'r darpariaethau hynny a gedwir o Ddeddf 2006 i adlewyrchu newidiadau a wnaed gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

8. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 6 uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu gofal iechyd.

Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon

9. Ni cheir ymwahanu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Er bod gofal iechyd yn faes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, cyfyngedig yw'r posibilrwydd i Gymru roi polisi gwahanol ar waith oherwydd ei bod yn ofynnol bodloni rhwymedigaethau rhyngwladol yr ymrwymwyd iddynt gan y DU. Byddai'r rhain yn cynnwys trefniadau gofal iechyd rhyngwladol. Mae'r Rheoliadau yn diwygio tri OS gofal iechyd cilyddol a wnaed ar sail Cymru a Lloegr, gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru, fel rhan o'r ymarfer cywiriadau ar gyfer ymadael â'r UE heb gytundeb er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu'n gywir. Felly, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith, a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio unwaith yn rhagor i OS ar gyfer y DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd i gleifion a darparwyr. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Vaughan Gething AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Hydref 2020